

## SPINETTI, VITTORIO GIORGIO ANDRE ('Victor') (1929 - 2012), actor, cyfarwyddwr ac awdur

**Enw:** Vittorio Giorgio Andre Spinetti  
**Dyddiad geni:** 1929  
**Dyddiad marw:** 2012  
**Partner:** Graham Lewis Curnow  
**Rhiant:** Giuseppe Spinetti  
**Rhiant:** Lily Spinetti (née Watson)  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** actor, cyfarwyddwr ac awdur  
**Maes gweithgaredd:** Perfformio; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu  
**Awdur:** Robert Hyde

Ganwyd Victor Spinetti ar 2 Medi 1929 yn Marine Street, Cwm ger Glynebwy, yr hynaf o chwech o blant Giuseppe Spinetti a'i wraig Lily (g. Watson). Agorodd ei dad siop bysgod a sglodion yno yn 1926, a ganwyd pob un o'r plant yn y llety uwchben y siop. Roedd tad-cu Spinetti, Giorgio, wedi cerdded o Bari yn yr Eidal i Gymru i gael gwaith yn y pyllau glo.

Amlygodd Spinetti addewid addysgol yn ifanc iawn, a gallai ddarllen cyn mynd i'r ysgol. Aeth pethau'n dda tan ddechrau'r Ail Ryfel Byd, pan arestiwyd ei dad yng nghanol y nos a'i garcharu fel 'estron'. Yn ôl Spinetti daeth bywyd yn eithaf anodd - 'One day I'm Welsh, and the next I'm a spy!'. Cefnodd ei ffrindiau arno, cafodd ei fwlian yn yr ysgol, ac ymosododd dau lanc arno ar ei ffordd adref, gan beri iddo golli ei glyw ar un ochr, cyflwr a barodd am weddill ei oes. Camodd athro i'r adwy trwy ysgrifennu at yr awdurdodau i brysuero rhyddhau Giuseppe a cheisio cynnal addysg Victor.

Parhaodd Spinetti ei addysg yn Ysgol Trefynwy, a ffynnodd yno. Nid oedd ganddo fawr o ddawn am chwaraeon, ond cymerodd at weithgareddau drama'r ysgol a'r theatr amatur y tu allan. Ar ôl iddo adael yr ysgol, ceisiodd helpu yn y siop, ac mewn busnesau eraill, ond ni ddangosodd fawr o allu. Cafodd ei wysio i Wasanaeth Cenedlaethol, ond canfuwyd ei fod yn rhannol fyddar, a chafodd ei ddadfyddino'n gynnar oherwydd afiechyd, wedi iddo dreulio cyfnodau hir yn yr ysbyty gydag arllwysiadau pliwraidd.

Ar ôl dod adref, cofrestrodd yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd, a dyna ddechrau ei daith fel perfformiwr proffesiynol. Prin y bu heb waith fyth wedyn. Yn y coleg yng Nghaerdydd y cwrddodd â'r actor Graham Curnow a fu'n gymar iddo am dros ddeugain mlynedd. Trwy gydol y 1950au treuliodd lawer o amser yn aelod cast mewn amryw ddramâu llwyfan, ac yn fwyaf nodedig '*South Pacific*' pan symudodd i'r West End yn 1954. Ymunodd yn yr ymarferion, ac yn y pen draw bu'n rhannu llety gydag aelod arall o'r cast - dyn ifanc o'r enw Sean Connery.

Daeth nifer o rannau bychain wedyn, nes i Spinetti gael rôl yn *Expresso Bongo* yn 1958. Aeth ymlaen i gymryd rhan yn *Candide* Bernstein, ac ymunodd â Theatre Workshop Joan Littlewood yn Stratford East (ei 'brifysgol' fel y'i galwodd), lle'r arhosodd am chwe mlynedd. Un diwrnod yn 1960, cerddodd Brendan Behan i mewn i'r theatr a gofyn am Spinetti i chwarae rhan swyddog IRA officer yn *The Hostage*, a oedd yn trosglwyddo i Broadway. Er i'r sioe honno fod yn llwyddiant mawr, gofynnodd Littlewood i Spinetti ddod yn ôl i ymuno â chast *Fings Ain't Wot They Used T'Be*.

Y cywaith mwyaf cyffrous gyda Littlewood yn ddiamau oedd *Oh What A Lovely War* yn 1963, sioe a gyflwynodd bortread rhyfeddol Spinetti o ddril-ringyll byddin. Mynnodd Littlewood na ddylai fyth ymarfer y gorchmynion a roddai yn y sioe, a daethant yn enwog fel ffiloreg lwyr. Trosglwyddodd y sioe i Broadway, lle bu'n llwyddiant ysgubol. Enillodd Spinetti wobwr Tony am yr Actor Nodweddd Gorau mewn Sioe Gerdd, a oedd yn syndod llwyr iddo. Gwnaeth ei araith fuddugol mewn 'Cymraeg', iaith nad oedd yn ei medru'n rhugl o gwbl, ac fel y cymeriad a bortreadodd i ennill y wobwr, fe'i dyfeisiodd wrth fynd yn ei flaen.

Gwnaeth ffilmiau wedyn gyda'r Beatles ar eu cais hwy, wedi iddynt ei weld yn *Oh What A Lovely War*, a soniai rhai amdano fel y chweched Beatle. Serennodd gyda Jack Klugman yn *The Odd Couple* yn y West End, a ffilmiodd *The Taming of the Shrew* gyda [Richard Burton](#) ac Elizabeth Taylor yn Rhufain. Ymddangosodd hefyd yn drawiadol gyda Sid James yn y sitcom *Two in Clover* a ddechreuodd yn 1969.

Roedd gwaith Spinetti yn amrywiol ac i bob golwg yn ddiamcan, gan bendilio rhwng arddulliau a genres. Yn y 1970au cyfarwyddodd nifer o sioeau cerdd, yn enwedig *Hair* yn Amsterdam a Rhufain, a *Jesus Christ Superstar* ym Mharis. Ysgrifennodd y ddrama *In His Own Write* yn y Theatr Genedlaethol, golwg ar fywyd John Lennon. Roedd yn berfformiwr nodedig gyda'r Royal Shakespeare Company, ac yn hwyr yn ei yrfa chwaraeodd ddihirod yn gofiadwy yn y sioeau llwyfan *Oliver!* (fel Fagin) a *Peter Pan* (fel Captain Hook). Aeth â'i sioe undyn ei hun *A Very Private Diary* ar daith ar draws y byd. Chwaraeodd ran Mog Edwards yn y fersiwn ffilm o *Under Milk Wood* yn 1971, mewn cast llawn sêr yn cynnwys Richard Burton, Elizabeth Taylor, Peter O'Toole, David Jason a Ruth Madoc.

I blant o genhedlaeth arbennig yn y 1980au, Spinetti yw llais y cartŵn Cymreig *Superted*, ac am flynyddoedd ef oedd 'the man of a thousand faces' yn y sioe blant *Harry And The Wrinklies*. Ymhlith ei ffilmiau diweddarach roedd *The Attic: The Hiding of Anne Frank* (1988), a *The Krays* (1990).

Roedd Spinetti hefyd yn llenor ac yn fardd, a chyhoeddwyd casgliad o'i farddoniaeth, *Watchers Along the Mall*, yn 1963. Mae ei hunangofiant, *Victor Spinetti Up Front*, a gyhoeddwyd yn 2006, yn llawn o'r straeon yr arferai eu hadrodd fel raconteur.

Yn ei flynyddoedd olaf rhoddwyd cymrodoriaethau er anrhydedd iddo gan Goleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru a chan Brifysgol Cymru Casnewydd.

Bu farw ei gyymar Graham yn 1997. Yn Chwefror 2011, wedi i Spinetti lewygu ar y llwyfan a thorri asgwrn yn ei gefn, canfuwyd bod cancr y prostad arno. Bu farw mewn hospis yn Nhrefynwy ar 19 Mehefin 2012.

## Awdur

Robert Hyde

## Ffynonellau

WalesOnline: [Spinetti: 'I'll always remember my roots'](#)

BBC One: [Great Welsh Lives: Victor Spinetti](#)

IMDb: [Victor Spinetti\(1929-2012\)](#)

'[Victor Spinetti obituary](#),' *The Guardian*, 19 Mehefin 2012

BBC Walesarts: [Victor Spinetti](#)

Theatricalia: [Victor Spinetti](#)

BFI: [Victor Spinetti](#)

Masterworks: [Victor Spinetti](#)

Victor Spinetti, *Up front: his strictly confidential autobiography* (London 2006)

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Victor Spinetti](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [163686366](#)

Wikidata: [Q253813](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2023-03-15

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

